**Memorandwm Esboniadol - Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
13 Ionawr 2026

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r fersiwn ddrafft o Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau drafft") yn diwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") mewn perthynas â gweithredu o ran Cymru ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn:

(a) y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Tywysogaeth Liechtenstein a Theyrnas Norwy a Theyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a wnaed yn Llundain ar 8 Gorffennaf 2021 ("cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA"), a

(b) y Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chydffederasiwn y Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol a wnaed yn Llundain ar 14 Mehefin 2023 ("Cytundeb y Swistir").

1.2 Caiff y Rheoliadau drafft eu gwneud wrth arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru fel awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") gan adrannau 3(1), (2) a 13(1) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 ("Deddf 2022"). Mae adran 16 o Ddeddf 2022 yn diffinio "appropriate national authority" at ddibenion y Ddeddf honno.

1.3 Sefydlodd Rhannau 3 i 8 o Ddeddf 2016 Ofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") fel y corff sy'n rheoleiddio'r proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru (cyfeirir at y proffesiwn hwnnw fel "gweithwyr gofal cymdeithasol" yn y Ddeddf honno), ac maent yn gwneud darpariaeth ynghylch cofrestru ac addasrwydd gweithwyr o'r fath i ymarfer yng Nghymru.

1.4 Mae rheoliadau 2 i 15 o'r Rheoliadau drafft yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2016 i roi effaith, o fewn y fframwaith a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yng nghytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ac yng Nghytundeb y Swistir.

1.5 Mae rheoliad 16 o'r Rheoliadau drafft yn gwneud diwygiadau i Atodlen 1 i Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 i hepgor gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru o'r rhestr o broffesiynau a gynhwysir yn yr Atodlen honno. Effaith y diwygiad hwn yw y bydd rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol gan GCC, gan gynnwys ymgeiswyr o wledydd a gwmpesir gan gytundeb masnach rydd yr AEE EFTA a Chytundeb y Swistir, yn cael ei lywodraethu gan y ddarpariaeth a wnaed yn Neddf 2016 ac yn y rheolau a wnaed gan GCC drwy rinwedd y Ddeddf honno.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae paragraff 10 (materion tramor, etc) o Atodlen 7A (materion a gedwir yn ôl) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod cysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, nid yw bodloni a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl ac felly mae gan Weinidogion Cymru'r cymhwysedd deddfwriaethol i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn materion sydd wedi eu datganoli.

3.2 Daeth Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 ("Deddf 2022") â'r system dros dro i ben ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a ddeilliodd o aelodaeth y DU o'r UE a chreodd fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau a phrofiad proffesiynol tramor yn y DU, neu ran o'r DU.

3.3 Mae adran 3(1) o Ddeddf 2022 yn darparu y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol at ddiben gweithredu unrhyw gytundeb cydnabod rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddo, neu mewn cysylltiad â gweithredu unrhyw gytundeb o'r fath. Caiff awdurdod cenedlaethol priodol ei ddiffinio (gan adran 16 o Ddeddf 2016) fel naill ai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor, neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â rheoliadau o dan y Ddeddf sydd ond yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys yn un o Ddeddfau'r Senedd.

3.4 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf 2022 i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygiad) 2023 ("Rheoliadau 2023 Llywodraeth y DU") i weithredu cytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ledled y DU. Roedd Rheoliadau 2023 Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaeth i weithredu'r cytundeb hwnnw mewn perthynas â meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru a gosododd ddyletswyddau statudol ar reoleiddwyr Cymreig.

3.5 Gwrthwynebodd Gweinidogion Cymru a'r Senedd y cynnig i gynnwys pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn ystod hynt y Bil ar y pryd.

3.6 Mewn ymateb, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Reoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) ("Rheoliadau 2023") i ddatgymhwyso

Rheoliadau 2023 Llywodraeth y DU mewn perthynas â rheoleiddwyr Cymru a gwneud darpariaeth briodol mewn perthynas â Chymru.

3.7 Cafodd Rheoliadau 2023 eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol fel y darperir ar ei gyfer gan adran 18 o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022. Fodd bynnag, i wneud diwygiadau i Ddeddf 2016, byddai angen i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

3.8 Nid oedd yn bosibl drafftio a gwneud offeryn cadarnhaol yn ymdrin â diwygiadau i Ddeddf 2016 i gyd-daro â dechrau Rheoliadau Llywodraeth y DU.

3.9 Cafodd Rheoliadau 2023 eu diwygio yn weithredol o 1 Ionawr 2025 i gynnwys gofynion pellach mewn perthynas â'r holl broffesiynau rheoleiddiedig Cymreig sy'n deillio o Gytundeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol y DU a'r Swistir.

3.10 Hyd at y diwygiadau i Ddeddf 2016, roedd Rheoliadau 2023 yn gymwys i ymgeiswyr perthnasol o'r gwledydd penodedig. Roedd y Rheoliadau hyn yn troshaenu'r fframwaith rheoleiddio a amlinellwyd yn Neddf 2016. Felly, byddai ymgeisydd a oedd yn awyddus i gofrestru o un o'r gwledydd perthnasol wedi gallu gorfodi ei hawliau o dan gytundeb masnach rydd yr AEE EFTA o hyd (ac o 1 Ionawr 2025 o dan Gytundeb y Swistir) drwy ddarpariaethau Rheoliadau 2023 a'r rheolau a wnaed gan GCC yn unol â phwerau o dan Ddeddf 2016.

3.11 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn unol ag adran 18(1), (6)(b) a (8) o Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022([1]).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau arfaethedig yw diwygio Deddf 2016 i roi effaith, o fewn y fframwaith a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yng nghytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ac yng Nghytundeb y Swistir.

4.2 Caiff Rheoliadau 2023 eu diwygio hefyd i hepgor gweithwyr gofal cymdeithasol a GCC fel eu rheoleiddiwr o gwmpas y Rheoliadau hynny.

([1]) Mae adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2005 yn mewnosod Rhan 2A newydd yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019; mae effaith y newid hwn yn disodli'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft â'r weithdrefn gymeradwyo ac yn disodli'r weithdrefn negyddol â gweithdrefn annilysu'r Senedd. Mae erthygl 2 o Orchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025 yn cymhwyso gweithdrefnau newydd y Senedd i offerynnau statudol Cymru, o 1 Ionawr 2026 ymlaen.

4.3 Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau arfaethedig yn gwneud y gofynion deddfwriaethol yn fwy hygyrch i GCC fel y rheoleiddiwr, ac i ddarpar ymgeiswyr, sy'n dymuno manteisio ar yr hawliau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol a sefydlwyd gan gytundeb masnach rydd yr AEE EFTA a Chytundeb y Swistir, wrth wneud cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae adran 15 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol, wrth wneud rheoliadau o dan adran 3 o'r Ddeddf, ymgynghori â rheoleiddwyr y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, neu ymgynghori â nhw pan fydd yn briodol i wneud hynny fel arall. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â GCC ar ôl datblygu'r fersiwn derfynol o'r Rheoliadau drafft.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

6.1 Ystyriwyd dau opsiwn yn yr asesiad hwn.

Opsiwn 1 – gwneud dim.
Opsiwn 2 – gosod Rheoliadau drafft i wneud diwygiadau i Ddeddf 2016.

**Opsiwn 1: Gwneud dim**

6.2 Ni allem wneud y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2016. Byddai Rheoliadau 2023 yn parhau i roi'r gallu i ymgeiswyr sy'n ceisio cofrestru o un o wledydd yr AEE EFTA neu'r Swistir ("ymgeiswyr perthnasol") i orfodi eu hawliau mewn perthynas â chydnabod cymwysterau proffesiynol drwy'r darpariaethau hyn.

6.3 Mae Rheoliadau 2023 yn troshaenu'r fframwaith rheoleiddio a amlinellir yn Neddf 2016 a'r rheolau gweinyddol a wnaed gan GCC gan ddefnyddio pwerau o dan y Ddeddf honno. Er bod y rhain yn gweithio ochr yn ochr â Deddf 2016, mae'r angen i ystyried y ddarpariaeth a wnaed gan y Ddeddf, ochr yn ochr â Rheoliadau 2023 a'r rheolau perthnasol a wnaed gan GCC, yn golygu bod y gofynion rheoleiddio yn llai hygyrch i ymgeiswyr perthnasol a GCC.

**Opsiwn 2: Gwneud y diwygiadau**

6.4 Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau drafft yn rhoi effaith, o fewn y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru, i'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yng nghytundeb masnach rydd yr AEE EFTA ac yng Nghytundeb y Swistir

6.5 Bydd y diwygiadau i Ddeddf 2016 a wneir gan y Rheoliadau drafft yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch i ymgeiswyr perthnasol a GCC fel y rheoleiddiwr.

### 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

7.1 Hyd yma, nid yw GCC wedi cael unrhyw geisiadau gan unigolion o unrhyw un o aelod-wladwriaethau'r AEE EFTA.

7.2 Mae'r prosesau a'r gweithdrefnau presennol eisoes yn faich gweinyddol ar y rheoleiddiwr sydd wedi amcangyfrif eu bod, ar hyn o bryd, yn costio:

i. Prawf gallu – Mae'r prawf hwn yn galw am dri adolygydd, defnyddio safle/adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru (£50), ac amser staff

(£353), a fyddai'n cyfateb i isafswm cost amcangyfrifedig o £403 fesul cais.

ii. Ymaddasu – Mae hyn yn galw am broses weinyddol gan gydweithwyr cofrestru ac amser i adolygu'r portffolios a gyflwynir. Mae angen tua 2 awr (£30) o amser staff cofrestru a thua 3 awr o amser staff adolygu (£84), sy'n gwneud cyfanswm o £124 fesul cais.

7.3 Fodd bynnag, gall y costau hyn gael eu gwrthbwyso gan y rheoleiddiwr gan fod GCC yn codi ffi am gofrestru a ffi flynyddol i adnewyddu cofrestriad. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig dalu'r ffioedd hyn, p'un a ydynt yn preswylio yn y DU neu'n weithwyr rhyngwladol.

7.4 Codir ffioedd am geisiadau tramor ar gyfer y rhai sy'n dymuno cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol. Mae'r ffioedd hyn yn talu costau staff GCC a fydd yn cadarnhau a yw eu cymwysterau yn gymaradwy â chymwysterau'r DU.

7.5 Os bydd gan ymgeisydd am swydd gweithiwr cymdeithasol lythyr gwirhau, bydd yn ddarostyngedig i'r ffi gofrestru safonol o £80 a'r ffioedd adnewyddu cofrestriad blynyddol dilynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Fodd bynnag, heb y llythyr hwn, bydd ymgeiswyr yn talu ffi o £350 i gael gwirio eu cymhwyster; a gallant hefyd ofyn am brawf gallu am gost ychwanegol o £200.

7.6 Nid yw'r broses hon ar gael eto i unrhyw un sydd am ymuno â'r gofrestr fel rheolwr gofal cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol, ond mae rhaglen drosglwyddo yn cael ei datblygu sy'n ceisio mynd i'r afael â'r angen hwn. Yn yr un modd â'r ffioedd cofrestru, bydd y ffioedd a godir am y gwasanaeth hwn yn gymesur â'r rolau a'r prosesau gweinyddol gofynnol.

**Llywodraeth Cymru**

7.7 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol disgwyliedig yn gysylltiedig â'r cynigion hyn, oherwydd disgwylir i unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gael eu darparu drwy'r dyfarniad cymorth grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r hwn yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys y prosesau cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.

**Y gweithlu gofal cymdeithasol/Cyflogwyr**

7.8 Mae'n anodd mesur yr effaith ar unigolion a allai fod yn awyddus i gofrestru fel gweithwyr gofal cymdeithasol, gan nad oes gennym ddarlun clir ar hyn o bryd o'r nifer posibl o ymgeiswyr o wledydd yr AEE na'r Swistir y gallai hyn effeithio arnynt. Mae GCC wedi cadarnhau nad yw wedi cael unrhyw geisiadau gan unrhyw unigolion o wledydd yr AEE ers 2017, pan gafodd un cais gan unigolyn o Norwy. Fodd bynnag, i'r rhai sydd am ymuno fel gweithwyr cymdeithasol, mae gan GCC system ffioedd glir, ac mae'r system hon wedi'i chynnwys ar ei wefan ac yn ei reolau fel yr amlinellir ym mharagraff 8.6 uchod.

7.9 Mae hyn yr un mor drosglwyddadwy i unrhyw gyflogwr sy'n dymuno cefnogi ymgeisydd tramor. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn GCC i ddeall sut y gellir gwneud y costau hyn yn gliriach wrth i waith ar y prosiect trosglwyddo fynd rhagddo a byddwn yn diwygio'r ddogfen hon maes o law.

**Opsiwn 2: Gwneud y diwygiadau**

7.10 Mae diwygiadau i Ddeddf 2016 yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hygyrchedd ac eglurder y gyfraith.

**Gofal Cymdeithasol Cymru**

7.11 Mae'n bosibl y bydd y cynigion yn arwain at rywfaint o gynnydd yn y costau gweinyddol i'r rheoleiddiwr, pe bai angen diwygio'r cyfnodau ymaddasu a'r profion gallu i sicrhau bod asesiadau ac adolygiadau annibynnol yn cael eu cynnal ar y rhain.

7.12 Mae'n anodd amcangyfrif a oes angen diwygio'r prosesau presennol a amlinellir ym mharagraff 7.2, gan nad yw GCC wedi cael unrhyw geisiadau gan unigolion o aelod-wladwriaethau yr AEE EFTA ers cyflwyno Rheoliadau 2023. Fodd bynnag, gallai'r costau hyn gael eu lliniaru'n rhannol gan y ffaith bod y rheoleiddiwr yn codi ffi am gynnal prawf gallu, os bydd yr ymgeisydd yn dewis sefyll prawf. Y ffioedd presennol[2] ar gyfer gweithwyr cymdeithasol nad oes ganddynt lythyr gwirhau yw £350 i wirhau eu cymhwyster yn erbyn cymwysterau'r DU a £200 arall os yw'r ymgeisydd yn dymuno cwblhau prawf gallu. Nid oes ffioedd tebyg ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol.

**Llywodraeth Cymru**

7.13 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol disgwyliedig yn gysylltiedig â'r cynigion hyn, oherwydd disgwylir i unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gael eu darparu drwy'r dyfarniad cymorth grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dyfarniad hwn yn darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys prosesau cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer.

**Y gweithlu gofal cymdeithasol/Cyflogwyr**

7.14 Mae'n anodd mesur y costau posibl i unigolion gan y bydd yr effeithiau posibl yn amrywio o berson i berson a bydd amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar y costau.

*e.e. gall cwblhau'r mesurau digolledu angenrheidiol fod yn gymhleth i ymgeiswyr, yn enwedig os ydynt yn byw dramor, lle na allant o bosibl sicrhau lleoliad i ymgymryd â mesur digolledu o ganlyniad i bwysau ar wasanaethau a/neu am nad oes ganddynt fisa i fynd i'r DU i ymgymryd â nhw. Mae'n bosibl hefyd na fydd gan gyflogwyr neu asiantaethau gwirfoddol yr amser na'r*

---

[2] https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd - Ffioedd presennol ail bwynt bwled.

*adnoddau i helpu unigolion i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol o'r sgiliau/gwybodaeth sydd eu hangen i gwblhau cyfnodau ymaddasu.* Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu unrhyw gymorth ariannol i helpu gyda hyn, felly byddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu gan y cyflogwyr neu asiantaethau gwirfoddol.

7.15 Nid oes unrhyw drefniant ffurfiol ar waith ar hyn o bryd i wirhau cymwysterau gweithwyr gofal cymdeithasol tramor sy'n dymuno cofrestru â GCC. Fodd bynnag, gallwn ddisgwyl bod y broses yn dilyn dull tebyg i'r un a amlinellwyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol tramor, gan y byddai angen i GCC gydgysylltu â chyrff proffesiynol a sefydliadau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol i allu gwirhau a yw'r cymwysterau hyn yn gymaradwy â chymwysterau yn y DU.

7.16 Gan ddefnyddio'r ffioedd presennol fel enghraifft, gan dybio bod yr holl dystiolaeth angenrheidiol ar gael wrth law, bydd unigolyn (neu gyflogwr neu asiantaeth os ydynt yn gwneud hyn yn lle'r gweithiwr neu'n cefnogi'r gweithiwr) yn disgwyl talu'r canlynol i ymuno â chofrestr y gweithlu gofal cymdeithasol Cymreig:

*Senario 1: Mae gan yr ymgeisydd lythyr gwirhau*

Mae'r ymgeisydd wedi darparu'r holl dystiolaeth angenrheidiol i gyd-fynd â'i gais, ac mae hyn yn dderbyniol i'r rheoleiddiwr, dim ond y ffi gofrestru flynyddol ar gyfer ei rôl y bydd angen iddo ei thalu – h.y. yn achos gweithiwr cymdeithasol, £80.

*Senario 2: Dim llythyr gwirhau ond tystiolaeth i gefnogi'r cofrestriad*

Mae'r ymgeisydd yn paratoi ei gais ac yn ei gyflwyno i GCC gyda'r ffi o £350 er mwyn i GCC wirhau a dilysu'r cymhwyster a'i gyfwerthedd i fodloni'r gofynion cofrestru yng Nghymru. Os bydd y cymhwyster yn bodloni'r gofynion a bod y dystiolaeth a ddarperir yn cael ei hasesu a'i bod yn cefnogi'r cais, bydd yr ymgeisydd yn cael cymeradwyaeth y rheoleiddiwr i gofrestru a bydd yn talu'r ffi gofrestru flynyddol ofynnol, sef £80 os yw'n gwneud cais i weithio fel gweithiwr cymdeithasol.

Ar ôl talu'r holl ffioedd uchod, bydd unigolyn neu gyflogwr/asiantaeth wedi talu cyfanswm o £430 i gofrestru yng Nghymru.

*Senario 3: Dim llythyr gwirhau ac nid yw'r dystiolaeth yn bodloni'r gofynion cofrestru*

Mae'r ymgeisydd yn talu'r ffi o £350 er mwyn i GCC wirhau a dilysu'r cymhwyster a'i gyfwerthedd i fodloni'r gofynion cofrestru yng Nghymru. I gefnogi ei gais, os nad yw'r dystiolaeth a ddarperir yn bodloni'r cofrestrydd, gall ymgeisydd dalu swm ychwanegol o £200 i sefyll prawf gallu er mwyn dangos bod ei sgiliau a'i wybodaeth yn bodloni'r gofynion angenrheidiol. Os caiff y cymhwyster ei wirhau a'i dderbyn; ac os asesir bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn dderbyniol, bydd hawl gan yr ymgeisydd i gofrestru – h.y. fel gweithiwr cymdeithasol – a thalu'r ffi gofrestru flynyddol o £80.

Ar ôl talu'r holl ffioedd uchod, bydd unigolyn neu gyflogwr/asiantaeth wedi talu cyfanswm o £630 i gofrestru yng Nghymru.

*Noder: Nid oes unrhyw un o'r costau uchod yn cynnwys yr arian ychwanegol y bydd ei angen ar unigolyn i sicrhau fisa i weithio yn y DU – h.y. gall ffioedd gwneud cais am fisa amrywio o £551 i £1,500, gordal gofal iechyd o £624 y flwyddyn a phrawf y gall unigolyn gynnal ei hun yn y DU os na all ei gyflogwr dalu'r costau. Gall cyflogwyr wneud cais am drwydded nawdd sydd, yn dibynnu ar y math o weithiwr y maent yn ei noddi, yn gallu amrywio o £536 i £1,476*[3].

## Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir

Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2 gan ei fod yn darparu'r eglurder deddfwriaethol angenrheidiol ac yn cyflwyno gofyniad sy'n sicrhau bod gan y rheoleiddiwr a'r cyhoedd drosolwg clir a chryno o'r broses a'r mesurau digolledu sydd ar gael i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol neu flynyddoedd cynnar yng Nghymru. Bydd y cynigion hefyd yn diogelu'r ddeddfwriaeth ym maes rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol at y dyfodol yng Nghymru rhag trefniadau eraill o ran y Cytundeb Masnach Rydd.

## 9. Asesiad Cystadleuaeth

Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gymhwyso i'r cynigion hyn sy'n dangos nad ydynt yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar gystadleuaeth; felly ni chynhaliwyd asesiad manwl.

Nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn ffordd sylweddol.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu adolygiad ar ôl gweithredu o'r rhaglen gofrestru erbyn 2026.

[3]https://www.gov.uk/uk-visa-sponsorship-employers/apply-for-your-licence - Canllawiau noddi i gyflogwyr gan Adran Fisâu a Mewnfudo EF Llywodraeth y DU.